NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Mewnosod sgaffald un cam i atgyweirio diffygion condrol symptomatig ar y ben-glin

03 Medi 2024

Gellir defnyddio'r driniaeth hon ar gyfer atgyweirio diffygion condrol symptomatig ar y ben-glin oherwydd mae'n gweithio'n dda ac nid oes unrhyw bryderon difrifol am ei ddiogelwch yn y cyflwr hwn.

Niwed i'r cartilag sy'n diogelu pennau'r esgyrn yng nghymal y pen-glin yw diffyg condrol i'r pen-glin. Gall achosi symptomau fel poen ac anystwythder yn y pen-glin a llai o symudedd.

Yn y driniaeth hon, caiff sgaffald ei rhoi mewn un cam yn yr ardal sydd wedi'i niweidio. Mae'r sgaffald yn annog celloedd i dyfu a chreu cartilag newydd. Weithiau, caiff celloedd o fêr esgyn neu o safleoedd eraill y person eu rhoi yn y sgaffald. Nod y driniaeth yw atgyweirio'r cartilag sydd wedi'i niweidio, lleihau symptomau a chadw'r cymal i weithio.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?

- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- O beth mae'r sgaffald wedi'i wneud?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio'r hyn y mae trefniadau safonol yn ei olygu.

Gall Arthritis Action, info@arthritisaction.org.uk roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8996-6